

Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â theulu Pentre Cader yn eu profedigaeth o golli tad Alix yn Ffrainc ar drothwy'r Nadolig. Gweddiwn y byddant hwy, ac eraill o'r Fro sydd mewn profedigaeth, yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn.
- Anfonwn ein cofion hefyd at Menna Owen (Cefn Meiriadog) a Doreen Evans (Tanyfron), y ddwy yn parhau yn Ysbyty Glan Clwyd, er i Doreen gael dod adre am ychydig dros y Nadolig. Yn Ysbyty Glan Clwyd hefyd y bu David Ll. Williams (Llanefydd); Falmi Evans (Saron), a Ceinlys Jones, Penrhwydfa (Llansannan), ond mae'r tri ohonynt wedi dychwelyd adre erbyn hyn. Diolchwn i Dduw am y gofal y maent wedi ei gael ac yn parhau i'w dderbyn. Cyflwynwn hwy oll i'r Arglwydd gan ofyn Iddo gysgodi drostynt, a gwyllo dros eu hanwyliaid yr un modd. Hyderwn y byddant yn adnabod gofal a heddwch yr Arglwydd yn eu hangen.
- Mae Harold Lloyd (Tanyfron) bellach wedi symud i gartref Yr Hen Ficerdy, a dymunwn Dduw yn rhwydd wrth iddo setlo yno. Yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau eraill sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Mair Roberts a Miss Hannah Alice Jones (Yr Hen Ficerdy); Mrs Enid Jones (Plas Ogwen); Mr Aneurin Evans (Park Lodge); Mrs Myra Hughes a Mrs Menna Streeter (Maes Elwy); Miss W J Roberts (Yr Hen Ddeondy); Mr Elfed Davies (Plas Eleri); a Mr Howell Jones (Bryn yr Eglwys).
- Llongyfarchiadau i Eilir Davies (Saron) a Charlie ar eu dyweddiad.
- Dymuniadau gorau i Huw a Ceri ar achlysur eu priodas yng Nghapel Saron ddydd Sadwrn nesaf.

Rhoddion

- Llongyfarchiadau i griw CAP (merched bl. 7-11) a fydd, trwy eu hymdrech yn y Noson Grefftau a Nwyddau Nadolig, yn cyfrannu £132.50 i Dŷ Gobaith yng Nghonwy. Da iawn chi genod!
- Yn yr un modd, diolchwn yn gywir iawn i Llinos Roberts (Cefn Meiriadog) am gyfrannu elw ei stondin hithau yn y Noson Grefftau a Nwyddau Nadolig, sef £156.00, tuag at ymdrech eglwysi'r Fro i ddisbarthu'r llyfrynau o Efengyl Marc i bobl yr ardal. Diolch yn fawr iawn Llinos.
- Hefyd, gwnaed elw o £133.00 yn Swper Nadolig 'Adnabod'. Bydd yr arian hwn yn cael ei gyfrannu i Uned Cancr Ysbyty Glan Clwyd. Diolch am bob cyfraniad tuag at y bwyd a'i gwnaeth yn bosib inni roi arwydd bychan o'n gwerthfawrogiad o'r gofal arbennig a gynigir yn yr Uned Cancr.

Diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd y gweithgareddau hyn a gynhaliwyd yn y Fro yn ystod mis Rhagfyr ac am bob rhodd o dderbyniwyd.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 1^{af} Ionawr 2012

Blwyddyn Newydd Dda

i bob un ohonoch!

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Roedd hi'n hyfryd iawn gweld Capel Henllan yn gyfforddus lawn bore dydd Nadolig i ddathlu genedigaeth ein Ceidwad. Cofiw'n am yr holl enwau a roed iddo trwy gyfnod y Proffwydi ac fel y daethant yn rhan o'r un enw 'Iesu' ar ei enedigaeth. Dyma'r 'enw sydd goruwch pob enw!' Yn yr enw yma mae holl gyfrinach person a gwaith yr Arglwydd – yr hwn oedd yn Fab Duw ac yn Fab y Dyn. A'i waith? - Gwaredu ei bobl! Wrth ddod i'r oedfaon heddiw ac wrth gamu i'r flwyddyn newydd rydym am ddyrchafu enw Iesu eto a'i ddyrchafu'n uchel mewn moliant.

Fe gawsoch anrhegion amrywiol iawn rwy'n siŵr! Clywais am rai yn cael 'laptop' am y tro cyntaf – heb fynd i enwi! Un anrheg annisgwyl a gefais i oedd bwyell i hollti coed! Ac fe gawsom focs o siocledi di-enw wrth y drws ffrynt – diolch i'r cymwynasydd anhysbys. (Gobeithio'n wir mai i ni y bwriadwyd y bocs oherwydd maent wedi eu bwyta i gyd erbyn hyn!) Ond yn ôl at y fwyell – mae hi'n un arbennig iawn mae'n rhaid gen i oherwydd fe ddaeth â llyfr hefo hi yn dweud am ei gwneuthuriad ac am y ffordd orau i'w defnyddio! Mae'r llyfryn hefyd yn sôn am y rhai eraill sydd ar gael i'w prynu – bwyell i fynd i hela, un arall i dorri coed i lawr ayb. Handi! Rhoddais gynnig arni bnawn dydd Llun ac mae hi'n hollti'n rhwydd iawn – cymaint gwell na'r hen un. Mae hi'n gwneud y gwaith y cafodd ei chreu i'w gyflawni. Mae ei siap yn iawn i'r pwrpas - yn finio, eto'n lledu'n gyflym i hollti'r coedyn ac mae hi'n drom iddi gael digon o rym wrth iddi gael ei tharo trwy'r pren.

Wrth ystyried ein hunain a sut mae hi arnom ar ddechrau blwyddyn arall, tybed a fedrwn ateb y cwestiwn yma? I ba bwrpas y cefais i fy nghreu? Pam mod i wedi cael y siap arbennig yma? Ydwi'n gwneud y gwaith y cefais fy nghreu yn arbennig ryfeddol i'w gyflawni?

'Diben pennaf dyn yw gogoneddu Duw' oedd ateb Beiblaidd y Rhodd Mam. Mae'n rhaid felly ein bod i gyd wedi'n creu hefo'r siap iawn i fedru gogoneddu Duw. Mae'n rhaid bod gennym enaid sydd yn gallu amgyffred Duw ac yn gallu cael ei ail-fywhau i gyflawni ei bwrpas! Dyma beth fyddai blwyddyn newydd dda, sef bod ein heneidiau yn cael eu bywhau gan yr Ysbryd Glân i foliannu Duw yn Iesu.

Beth am osod hyn yn nod eleni sef ceisio Duw a'i ras i ddyfnhau bywyd ysbrydol yr enaid sydd gennym er mwyn gallu dyrchafu a chyd-ddyrchafu enw Iesu, ei goroni Ef yn ben a byw i'w wasanaethu?

Blwyddyn Newydd Dda i bob un ohonoch ac i bob teulu ymhell ac agos!

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma Ni fydd **Oedfa i'r Fro** heno.
- Sadwrn **Darlithoedd DAWN Cymru** yng Nghapel Seion, Baker Street, Aberystwyth SY23 2BJ. (Paned am 10.00, y darlithoedd yn cychwyn am 10.30.)
- Sul nesaf Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd y Parch Meurig Dodd yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00.
- Mercher Noson o gemau "Scrabble" yng nghwmni Eifion Jones Llansannan fydd gan y Gymdeithas Undebol yn Neuadd Goffa Llanfair am 7.30.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Ionawr 11^{eg} Cyfarfod Pregethu Dechrau'r Flwyddyn yng Nghapel Soar, Llanfair am 7.00 gyda Mr Tom I. Williams, Dinbych yn pregethu.

Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00, ond ni fydd Ysgol Sul heddiw.
- Mawrth Cynhelir Oedfa Dechrau'r Flwyddyn yn y Ffestri am 7.30 gyda'r Parch Rhun Murphy yn pregethu.
- Mercher Bydd Cyfarfod dan nawdd Cymdeithas y Beibl yn y Ffestri am 7.30 yng nghwmni Aneurin.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
Cynhelir Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn yn y Ffestri am 7.30.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Bydd Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Ionawr 9^{fed} Sylwch ar ddyddiad newydd y cyfarfod nesaf o'r Gymdeithas pan fydd Rhys Dafis yn rhannu hanes ei daith i'r Himalayas.
- Ionawr 10^{fed} Cyfarfod Blynyddol Eglwys Unedig Llansannan am 7.30.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac yn Mheniel am 2.00. Cynhelir yr Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Cynhelir Gwasanaeth Carolau Undebol yng Nghapel Henllan, bore Sul, Ionawr 1af am 11.00 gyda phaned i ddilyn. Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Groes am 10.00. Bydd Ysgol Sul yn Groes am 2.00.
- Mercher Cynhelir Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn yn Henllan am 7.30.
- Sul nesaf *SYLWER* Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa undebol yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00.
- Llun Cynhelir Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn yng Nghefn Berain am 7.00.
- Mercher Cynhelir Oedfa Dechrau'r Flwyddyn yn Llanefydd am 7.00 gyda'r Parch Hywel Edwards yn pregethu.
- Iau Cynhelir Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn yng Nghefn Berain am 7.00
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain a Llanefydd am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwys Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau